# Dyn o'r enw Iesu

Pennod 2 - Yn seiliedig ar Luc, Pennod 2 adnodau 1 i 20

# Genedigaeth yr Iesu







Translation in Welsh by Molly Blayney

**www.mylittlehouse.org**

Copyright © 2014 by Didier Martin.


Genedigaeth yr Iesu
Teithio i Fethlehem
Nasareth
Môr Galilea
Yr afon Iorddonen
Môr y Canoldir
Jeriwsalem
Bethlehem
Y Môr Marw
Roedd y daith yn hir ac yn flinedig; ac roedd hi bron yn amser i'r baban gael ei eni. Ar ôl teithio am ddiwrnodau maith maen nhw'n cyrraedd Bethlehem o'r diwedd.


O Joseff, rydw i wedi blino'n lân. Dere i chwilio am le i aros.
Ie Mair, mae wedi bod yn siwrne hir. Fe af i weld â oes lle fan hyn i ni.

Rydym wedi teithio o bell a mae fy ngwraig wedi blino yn lân. Mae angen lle i aros arnom ni.

Mae'n ddrwg gen i! Mae Bethlehem yn orlawn ar hyn o bryd.
Mae gymaint o bobl wedi dod yma i gofrestri . Does dim un stafell ar ôl gen i.
Yr unig beth allaf i ei gynnig yw gwely o wair yn y stabal.
Diolch yn fawr i chi syr! Byddwn yn hapus i sefyll yno.

Dyma ni Mair. Dydy e ddim yn foethus ond man lleiaf gallwn ni orffwys yma am heno; a bydd yr anifeiliaid yn ein cadw ni'n gynnes.
Ond Joseff, mae'r baban yn mynd i gael ei eni heno!
O diar; fe wna i baratoi lle cyfforddus i ti.
Dyna ni ... fe â i i nôl bach o ddŵr.

Fe wnaeth Joseff wely bach cyfforddus o wair i Mair; a dyma lle cafodd ei baban bach cyntaf ei eni - y baban Iesu.
Mae hi yn ei lapio mewn cadachau a'i roi i orffwys yn ofalus yn y preseb.
Dere di, fy maban annwyl, gorffwysa nawr.

Y noson honno, ar fryn yn agos i'r dref, roedd bugeiliaid yn gofalu am eu defaid.
Ydy popeth yn iawn Ishmael?
Ydy diolch. Mae'r defaid yn gorffwyso'n dawel. Am noson hyfryd.
Yn sydyn, mae angel yn ymddangos. Roedd ofn ar y bugeiliaid.
Peidiwch ag ofni! Mae gen i newyddion da i chi.

Heno, ym Methlehem fe anwyd Gwaredwr y byd, Crist yr Arglwydd.
Fe ddowch o hyd i'r baban bach wedi ei lapio mewn cadachau ac yn gorwedd yn y preseb.
Ar yr un amser dangosodd llu o angylion yn yr awyr yn canu clod i Dduw " Gogoniant i Dduw yn y nefoedd a heddwch ar y ddaear i ddynolryw".

"Dewch i Fethlehem i weld y baban".

Edrychwch, mae golau yn y stabal.
Brysiwch! Dewch i ni fynd mewn!

Maen nhw'n mynd i mewn i'r stabal ac yn gweld Mair, Joseff a'r Baban Iesu ; yn union fel y dywedodd yr angylion wrthynt.


Aeth y bugeiliaid allan a dweud wrth bawb beth oedd wedi digwydd ; a phob peth roedd yr angylion wedi ei ddweud wrthynt.
Diolch i ti Dduw am anfon y Gwaredwr atom a gadael i ni ei weld Ef.
Dihunwch bawb! Dihunwch!
Beth sy'n bod?
Cafodd y Gwaredwr ei eni heno; yma ym Methlehem.